# Disgrifiad o'r rôl

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | **Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant (AEM)** |
| **Gradd:** | Gradd 6 |
| **Tîm/Maes swyddogaethol:** | Arolygu |
| **Lleoliad:** | Yn gweithio gartref, pencadlys wedi'i leoli yng Nghaerdydd |
| **Hyd y swydd (os yw'n swydd dros dro neu am gyfnod penodedig):** | Swydd barhaol |
| **Patrwm gwaith:** | Amser llawn |
| **Yn adrodd i'r:** | Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Arolygu) |

## Diben y rôl

Fel Arolygydd Ei Mawrhydi (AEM), byddwch yn cyfrannu at ddatblygu a lledaenu arfer effeithiol a meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Byddwch yn gweithio o fewn strwythur rheoli matrics ar draws ystod o sectorau, yn arwain neu fel aelod tîm mewn arolygiadau, gwaith thematig ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol.

## Prif atebolrwyddau

- Arwain neu gyfrannu at arolygiadau, adroddiadau a gwaith cynghori, gan gynnwys arolygiadau o ddarparwyr addysg unigol ac adolygiadau 'thematig' ehangach yn rhychwantu sampl o ddarpariaeth yng Nghymru
- Cymryd rhan mewn datblygiadau cenedlaethol a llunio cyngor proffesiynol sydd wedi'i lunio i lywio datblygiad polisi yn eich meysydd arbenigedd
- Ymgymryd â gwaith sydd wedi'i lunio i gipio a lledaenu arfer orau a welwn drwy ein rhaglenni arolygu
- Gweithio o fewn systemau a phrosesau cytûn a chyfrannu at dwf, datblygiad a newid sefydliadol o fewn Estyn
- Sicrhau ansawdd adroddiadau arolygu ac arolygon thematig
- Paratoi a chyflwyno hyfforddiant cychwynnol a hyfforddiant diweddaru i arolygwyr allanol a digwyddiadau i randdeiliaid allweddol
- Bod yn ddelfryd ymddwyn ar gyfer gwerthoedd Estyn a gweithredu er lles plant a myfyrwyr bob amser
- Hybu a diogelu lles y plant a phobl ifanc y byddwch yn dod i gysylltiad â nhw

## Gofynion ychwanegol y rôl

Byddwch yn gweithio gartref a bydd yn ofynnol i chi deithio'n sylweddol ledled Cymru, gan gynnwys aros dros nos yn aml. Rhaid i chi fod yn barod i weithio'n hyblyg a datblygu medrau newydd i fodloni anghenion busnes Estyn.

Mae rôl AEM yn mynnu gwiriad manwl o'ch cofnod troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Yn sgil eich rôl, byddwch yn dod i gysylltiad uniongyrchol â phlant neu oedolion sy'n agored i niwed a byddwch hefyd yn gweld deunydd neu wybodaeth sensitif am blant ac oedolion bregus.

Disgwylir i chi fod yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau yn ymwneud ag amddiffyn plant, iechyd, diogelwch a diogeledd, cyfrinachedd a diogelu data, a chydymffurfio â nhw.

## Manyleb yr unigolyn

| Gofynion hanfodol | Profir drwy |
|---|---|
| **Cymwysterau** | |
| Cymhwyster lefel gradd neu gymhwyster cyfwerth. | Ffurflen gais |
| Rhaid i chi fod â chymhwyster addysgu cydnabyddedig sydd wedi arwain at Statws Athro Cymwys (SAC) - yr holl swyddi ac eithrio'r swyddi addysg a hyfforddiant ôl-16 | Ffurflen gais |
| **Profiad** | |
| O leiaf tair blynedd o brofiad o arweinyddiaeth neu brofiad arbenigol ar lefel uwch mewn un neu fwy o'r sectorau rydym yn eu harolygu, gyda ffocws penodol ar addysg gynradd, addysg uwchradd, gwasanaethau addysg llywodraeth leol ac addysg a hyfforddiant ôl-16 | Ffurflen gais<br>Asesiad<br>Cyfweliad |
| Hanes profedig o gyflawni deilliannau gwell i ddysgwyr | Ffurflen gais<br>Asesiad<br>Cyfweliad |
| **Technegol** | |
| Ymwybyddiaeth o'r newidiadau sy'n digwydd mewn addysg ac arolygu ar hyn o bryd, a'r gallu i ddilyn y datblygiadau diweddaraf ar draws ystod eang o faterion proffesiynol | Ffurflen gais<br>Asesiad<br>Cyfweliad |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth ddofn ac eang o faterion addysg cyfredol mewn un neu fwy o'r sectorau rydym yn eu harolygu | Cyfweliad |
| Dealltwriaeth o'r rhanddeiliaid allweddol mewn addysg, a'u cyd-destun gweithredol | Asesiad<br>Cyfweliad |
| Dadansoddi a dehongli data a thystiolaeth i gefnogi trywyddau ymholi ac ategu barnau | Asesiad |

| Gofynion hanfodol | Profir drwy |
|---|---|
| **Gallu** | |
| Gallu i gyfathrebu'n glir ac yn effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig, gan ddangos eglurder a dylanwad | Ffurflen gais<br>Asesiad<br>Cyfweliad |
| Gallu i ddefnyddio offer TG yn effeithiol yn eich gwaith bob dydd | Ffurflen gais<br>Asesiad |
| **Ymddygiad – Arweinyddiaeth** | |
| Ysbrydoli ac ysgogi pobl eraill i ymgysylltu'n llawn â'u gwaith a bod yn ymroddedig i'w rôl<br><br>Cefnogi eich gweithredoedd a'ch penderfyniadau eich hun a'ch tîm, yn ôl yr angen, a herio'n effeithiol gan ddwyn pobl eraill i gyfrif<br><br>Croesawu ac ymateb i safbwyntiau a heriau gan bobl eraill, er gwaethaf unrhyw bwysau sy'n gwrthdaro<br><br>Hybu amrywiaeth, cynhwysiant a chyfle cyfartal, a pharchu gwahaniaethau | Ffurflen gais<br>Asesiad<br>Cyfweliad |
| **Ymddygiad – Cyfathrebu a dylanwadu** | |
| Cymryd rhan mewn deialog broffesiynol adeiladol â chydweithwyr a rhanddeiliaid allweddol, a meithrin partneriaethau effeithiol ac ymddiriedaeth<br><br>Esbonio materion cymhleth mewn ffordd sy'n hawdd i'w deall ac yn briodol i'r gynulleidfa<br><br>Cyflwyno negeseuon anodd mewn modd eglur a sensitif, ac ystyried effaith yr iaith a ddefnyddir<br><br>Bod yn eangfrydig ac yn ddiduedd wrth barchu buddiannau a barnau amrywiol pobl eraill | Ffurflen gais<br>Asesiad<br>Cyfweliad |
| **Ymddygiad – Gwneud penderfyniadau effeithiol** | |
| Llunio barnau cadarn a gwneud penderfyniadau dibynadwy mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd beichus a dan bwysau amser<br><br>Cadarnhau eich dealltwriaeth eich hun cyn gwneud penderfyniadau, ac annog awgrymiadau arloesol a her gan bobl eraill i lywio penderfyniadau<br><br>Dadansoddi a dehongli data o ffynonellau amrywiol yn gywir i ategu penderfyniadau<br><br>Cyflwyno casgliadau rhesymol o ystod eang o dystiolaeth gymhleth | Ffurflen gais<br>Asesiad<br>Cyfweliad |

| Gofynion hanfodol | Profir drwy |
|---|---|
| Gwneud penderfyniadau'n hyderus, hyd yn oed pan fydd manylion yn aneglur neu pan fyddant yn amhoblogaidd | |
| **Ymddygiad – Cyflawni'n brydlon** | |
| Rheoli blaenoriaethau cystadleuol yn effeithiol a sicrhau y caiff deilliannau o ansawdd da eu cyflawni'n amserol<br><br>Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol<br><br>Dangos gwydnwch a chynnal eich lefelau perfformiad eich hun mewn amgylchiadau heriol, ac annog pobl eraill i wneud yr un peth<br><br>Sicrhau bod pawb yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain ac yn berchen arnynt | Ffurflen gais<br>Asesiad<br>Cyfweliad |
| **Gofynion dymunol** | **Profir drwy** |
| **Technegol** | |
| Cwblhau hyfforddiant fel Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yn llwyddiannus (Arolygydd Cofrestredig, Arolygydd Ychwanegol neu Arolygydd Cymheiriaid) | Ffurflen gais |
| **Gallu** | |
| Gallu cyfathrebu'n effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg | Ffurflen gais<br>Asesiad<br>Cyfweliad |